# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - Y Bumed Senedd

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018

Amser: 09. - 11.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4829

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Jayne Bryant AS<br>Angela Burns AS<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Caroline Jones AS<br>Julie Morgan AS<br>Lynne Neagle AS |
| Tystion: | Dr Tracey Cooper, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Huw George, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Dr Quentin Sandifer, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Claire Morris (Clerc)<br>Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)<br>Stephen Boyce (Ymchwilydd)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Craffu cyffredinol: Sesiwn dystiolaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru

2.1 Ymatebodd cynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor a chytunodd i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol yn ysgrifenedig:

- Ffeithlun a ddefnyddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddelio â phrofiadau andwyol mewn plentyndod;
- Manylion am waith gwydnwch a wneir mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed;
- Yr adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â'r ffaith bod esgeulustod yn brofiad andwyol mewn plentyndod;
- Manylion am sut caiff cyllid ei flaenoriaethu, gan gynnwys sut caiff gwariant rhaglen gwella iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei rannu ar draws cwrs bywyd;
- Dadansoddiad o sut caiff staff eu dyrannu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng rolau ymchwil a darparu;
- P'un a oes manylion ar gael ar y nifer o bobl sy'n goroesi sepsis ond yn profi ansawdd bywyd is o ganlyniad;
- Copi o adroddiad cynnydd perfformiad Iechyd Cyhoeddus Cymru;

Manylion am y gallu i ymateb i gynnydd disgwyliedig mewn sgrinio ar gyfer canser y coluddyn pan gaiff y Prawf Imiwnogemegol Ysgarthol (FIT) newydd ei gyflwyno.

## 3 Papur(au) i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Blaenraglen waith: meysydd o ddiddordeb a rennir - 26 Mehefin 2018

3.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghymru - 26 Mehefin 2018

3.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Craffu cyffredinol: Sesiwn dystiolaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 6 Blaenraglen waith

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a chytunodd i gynnal ymchwiliad undydd i ddeintyddiaeth yng Nghymru ac ymchwiliad i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr.